# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Martyn Holland a Jason McLellan

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid/Swyddog A.151 (RW); Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ); Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl (KN); Swyddog Cefnogi Llety (KB); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2017 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 STRATEGAETH Y GYMRAEG

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones yr adroddiad a chyflwyno Strategaeth arfaethedig y Gymraeg (2017-2022) i'w chymeradwyo. Cyfeiriodd at y sylw negyddol a fu yn y wasg yn ddiweddar ynglŷn â'r ddogfen ac roedd yn gobeithio y

byddai'r camau blaengar a nodwyd yn y strategaeth yn cael eu hadrodd yn fwy cadarnhaol yn y cyfryngau yn awr.

Cynhyrchwyd y strategaeth mewn ymateb i weithrediad Safonau'r Iaith Gymraeg ac roedd yn nodi sut y byddai'r awdurdod yn hyrwyddo a gwella'r iaith gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir o 0.5% dros y pum mlynedd nesaf. Rhannwyd y strategaeth yn themâu strategol- cynllunio strategol, plant a phobl ifanc, cymuned, busnes a'r economi a gweinyddiaeth fewnol o fewn y Cyngor. Cyfeiriwyd at y gwaith a wnaed eisoes gyda phartneriaid i baratoi a byddai'r strategaeth yn cael ei cyflenwi gan weithio gydag ystod o sefydliadau cymunedol. Tynnwyd sylw at ddadansoddiad ystadegol o siaradwyr Cymraeg yn y sir, gan gynnwys dylanwad cadarnhaol dysgu mwy o Gymraeg i blant oedran ysgol.

Canmolodd yr Arweinydd bod Grŵp Llywio'r Gymraeg wedi'i sefydlu er mwyn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ymhellach ac fe groesawodd y strategaeth fel dull o atal y gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg a rhagori ar y targed o 0.5% yn hirdymor. Roedd y Cyngor wedi derbyn Safonau'r Iaith Gymraeg ond roedd yn teimlo y gellir dysgu mwy gan awdurdodau eraill sy'n siarad Cymraeg ac awgrymodd y gallai Grŵp Llywio'r Gymraeg archwilio'r mater ymhellach.

Croesawodd y Cabinet y strategaeth a'r camau cadarnhaol a nodwyd drwy'r themâu allweddol er mwyn amddiffyn a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a cheisiwyd sicrwydd ynglŷn â sut y byddai'r camau hyn yn cael eu monitro i sicrhau cynnydd effeithiol. Eglurwyd y byddai'r camau gweithredu'n cael eu hadrodd yn chwarterol i Grŵp Llywio'r Gymraeg a byddai'r camau yn cael eu cynnwys a'u monitro yn y cynlluniau gwasanaeth. Gyda'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg, tynnodd y Cynghorydd Eryl Williams sylw at lwyddiant cynnal digwyddiadau Cymraeg megis Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd mewn ardaloedd gyda llai o siaradwyr Cymraeg. Tynnodd sylw hefyd at y cynnydd mewn galw ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sir ac roedd yn teimlo y dylid adlewyrchu hyn yn y strategaeth, ynghyd â'r pwysigrwydd bod disgyblion yn cadw'r iaith ar ôl gadael yr ysgol a sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn iaith fyw y tu allan i'r system addysg. Croesawodd y Cynghorydd Meirick Davies y strategaeth ond ceisiodd sicrwydd bod adnoddau yn eu lle i sicrhau y gellir ei chyflawni'n ymarferol. Cytunodd yr Arweinydd bod angen newid diwylliant ac y byddai cynnydd amserol y strategaeth angen cyllid ychwanegol ac mae'n debyg y byddai'n fater i'r Cyngor newydd a Grŵp Llywio'r Gymraeg ei olrhain.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth arfaethedig y Gymraeg.*

## 6 CYNNIG AR GYFER CYTUNDEB CYDWEITHREDOL CEFNOGI POBL CSDD A CHLWYD ALYN

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cytundeb ar y cyd rhwng Cefnogi Pobl CSDd a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn i ddarparu prosiect tai â chymorth y Dyfodol o fis Hydref 2018. Roedd y Cabinet eisoes wedi cymeradwyo cynnig i archwilio'r opsiwn o ddatblygu cytundeb partneriaeth gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn ym mis Tachwedd 2016.

Roedd prosiect y Dyfodol a ariennir gan Gefnogi Pobl yn cael ei ddarparu gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn ac yn darparu 35 uned o dai â chymorth ar gyfer pobl ifanc. Daw'r contract presennol i ben ar 30 Medi 2018 yn dilyn nifer o estyniadau contract er mwyn ail-fodelu'r Dyfodol mewn cydweithrediad â budd-ddeiliaid allweddol fel rhan o ddatblygiad ymagwedd ehangach Llwybr Pobl Ifanc. Ymhelaethodd y Cynghorydd Feeley ar y rhesymau dros y bartneriaeth arfaethedig yn hytrach na phroses dendro, a oedd yn cynnwys y ffaith y byddai'r prosiect yn cefnogi sawl dyletswydd statudol (gan gynnwys Deddf Tai 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2015) ac yn arwain at leihau amharu ar y gefnogaeth. Cyfanswm gwerth y contract tair blynedd oedd £1,179,618 ac roedd y gost flynyddol o £393,206 eisoes wedi'i gyllidebu yn Grant CP o 2017/18 ymlaen.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a’r swyddogion CP y cwestiynau fel a ganlyn –

- cadarnhawyd bod aelodau'r Rhyl wedi'u cynnwys yn y prosiect ond cytunwyd y dylid cyflwyno'r cynnig i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl.
- cynghorwyd bod y prosiect yn darparu tai â chymorth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16-24 oed a bod yr unedau yn orlawn ond tynnwyd sylw at yr ymdrech i wella ymyraethau ar gam cynharach yn y llwybr newydd ar gyfer pobl ifanc a fyddai'n arwain at ostyngiad mewn galw am unedau llety â chymorth.
- eglurwyd bod y prosiect wedi'i ail-fodelu yn canolbwyntio ar ganlyniadau gwell, yn enwedig o ran addysg a chyflogaeth, gyda phwyslais ar arfogi pobl ifanc gyda'r sgiliau hanfodol ar gyfer annibyniaeth a darparu cefnogaeth yn ôl yr angen.
- ymhelaethwyd ar y gwaith a wnaed i sicrhau tenantiaethau mewn ystod o farchnadoedd gan ddarparwyr cymeradwy pan fo pobl ifanc yn symud ymlaen o unedau tai â chymorth i sicrhau llety cynaliadwy addas a thenantiaethau llwyddiannus.
- ymhelaethwyd ar rôl y gwahanol bartneriaid yn ymagwedd y Llwybr Pobl Ifanc a buddsoddiad gan wasanaethau eraill wrth symud ymlaen a manteision dull partneriaeth.
- cadarnhawyd bod CP yn gweithio yn unol â chanllawiau cysylltiadau lleol a rhoddir blaenoriaeth i bobl leol.
- o ran digartrefedd cyffredinol, cynghorwyd yr aelodau ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael gan gadarnhau bod cefnogaeth yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd
- darparwyd sicrwydd nad oedd llawer i'w ennill o ran elw ariannol pe bai'r contract yn cael ei roi allan i dendr ond gallai arwain at golli darpariaeth cefnogaeth; cyfeiriwyd hefyd at y prosesau diogelu a deddfwriaethol sydd ar waith o ran dull y cytundeb ar y cyd.
- ymhelaethwyd ar y buddion cymunedol a gynigir gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn mewn perthynas â sgiliau cyflogaeth fel y cyfeiriwyd atynt yn yr Asesiad o Effaith ar Les.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar gyfer Cytundeb Cydweithredol Cefnogi Pobl (CP) CSDd a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn (CTCA) i gyflawni prosiect tai â chymorth y Dyfodol.*

**7 GWELEDIGAETH TWF A STRATEGAETH AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans adroddiad yn nodi'r cynnydd o ran datblygu Strategaeth Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru ac yn amlinellu'r model llywodraethu rhanbarthol arfaethedig gyda Chyd-bwyllgor statudol.

Roedd y Weledigaeth Twf wedi'i chefnogi gan chwe Chyngor Gogledd Cymru yn yr hydref 2016 a gwahoddir y Cabinet yn awr i gefnogi'r strwythur llywodraethu arfaethedig i ddatblygu'r strategaeth i 'Gais Twf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol. Tynnodd yr Arweinydd sylw at y disgwyliadau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru o ran gwaith rhanbarthol i wneud y mwyaf o effaith buddsoddiad, a disgwyliadau Llywodraeth y DU ar gyfer gwaith trawsffiniol a chysylltiadau gydag economïau eraill.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus gylch gorchwyl y Cyd-Bwyllgor arfaethedig a oedd yn ymwneud â datblygu Cais Twf ffurfiol, gan gytuno ar gynllun buddsoddi, a gosod a goruchwylio cynllun gweithredu. Pe bai'r model llywodraethu amlinellol yn cael ei gytuno yna byddai mwy o wybodaeth a manylion yn cael eu hychwanegu. Tynnwyd sylw'r Cabinet at yr Asesiad o Effaith ar Les ac ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr asesiadau o ran buddion a ffactorau risg y trefniadau hynny ynghyd â'r mesurau lliniaru a diogelu i gynorthwyo i sicrhau canlyniad cadarnhaol.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- tynnwyd sylw at seilwaith cludiant fel elfen allweddol o ddarparu'r strategaeth a bod angen gweledigaeth gref o ran hynny, yn enwedig o ran y rhwydweithiau ffyrdd gan gynnwys cysylltiadau rhwng cymunedau gwledig ac economïau eraill, i sicrhau bod Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda i elwa ar gam cynnar yn y broses.
- Nodwyd bod yr A55, A494, A5 a'r A483 oll wedi'u nodi fel blaenoriaethau rhanbarthol. Cyfeiriwyd hefyd at y Cynllun Cludiant Lleol ar draws y chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru a chytunwyd y byddai'n amserol pe bai'r Cyngor newydd yn adolygu'r strategaeth priffyrdd wrth symud ymlaen. Roedd y Cabinet hefyd yn falch o nodi bod consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol, yn debyg i TAITH, wedi'i gynnig fel rhan o gylch gorchwyl y Cydbwyllgor ar gyfer Cynllunio a Chomisiynu Cludiant, nodwyd pe bai'r model llywodraethu arfaethedig yn cael ei gymeradwyo byddai gwaith pellach yn cael ei gyflawni i ddatblygu ymgynghoriad manwl a chytundeb rhwng awdurdodau a'i gyflwyno'n ôl i'r Cabinet yn ystod tri mis cyntaf o dymor y Cyngor newydd. Yr aelodaeth a argymhellir ar gyfer y Cyd-Bwyllgor oedd arweinwyr y chwe chyngor.
- pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau y cyflawnir buddion pennaf Sir Ddinbych drwy waith rhanbarthol a sicrhau nad oedd y cyngor wedi'i ddifreinio o ganlyniad i hynny. Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â hynny ac fe gydnabuwyd efallai na fyddai cynlluniau penodol yn darparu buddion ar gyfer y chwe chyngor a byddai'r Cyd-bwyllgor yn trafod y gefnogaeth ar gyfer y cynlluniau hynny a'r pwysau ariannol o ran cyfraniadau cynghorau. Dylid canolbwyntio ar wneud buddsoddiadau a thyfu economi Gogledd Cymru i ganiatáu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth a sicrhau bod gan breswylwyr sgiliau cyflogaeth.
- eglurwyd bod gwaith arfaethedig y Cyd-Bwyllgor wedi'i nodi yn y cylch gorchwyl ynghyd â'i gyfyngiadau, a byddai gan gynghorau unigol eu gwaith eu hunain i

wneud hefyd i gefnogi datblygiad economaidd eu hardal, gan gynnwys adfywio. Roedd dyrannu cyllid llywodraeth yn faes cymhleth ac roedd yn bwysig bod dealltwriaeth glir o ddarpariaeth ariannol i wneud y mwyaf o gyfleoedd buddsoddi.

- roedd effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr Iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o Effaith ar Les ynghyd â'r camau lliniaru.
- cynghorwyd yr aelodau bod Carchar EM y Berwyn wedi'u hymgysylltu'n llawn i weithio gyda'r rhanbarth i sicrhau effaith leol gadarnhaol ac unwaith y derbynnir y ffigurau o ran y buddion i Sir Ddinbych o ran gwaith adeiladu a chyflogaeth gellir rhannu'r wybodaeth gyda'r Cabinet.
- roedd digideiddio yn rhan bwysig o'r weledigaeth twf ac yn cynnwys cynlluniau i gyflymu cyflwyno cysylltiad band eang a chynyddu band eang cyflym iawn gan archwilio meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad.
- Roedd disgwyliad gan y llywodraeth ar gyfer cynllunio strategol ar y cyd gyda Gogledd-Orllewin Lloegr a chyda rhwydwaith ehangach Pwerdy'r Gogledd ac roedd y rhanbarth yn gweithio'n agos gyda Partneriaethau Menter Lleol Swydd Gaer a Warrington ar sail draws-ffiniol.
- Roedd gwaith gyda darparwyr addysg yn cael ei gyflawni i gefnogi datblygu a gwella sgiliau'r gweithlu rhanbarthol a byddai'r Cyd-Bwyllgor mewn sefyllfa i gymell a chyfarwyddo'r gwaith yn fwy cydlynol.
- cyfeiriwyd hefyd at y ddau safle cyflogaeth strategol yn Llanelwy a Bodelwyddan a'r cynnydd a wnaed o ran datblygu, busnesau newydd a hyrwyddo.

Trafododd y Cabinet y symudiad cyffredinol tuag at waith rhanbarthol a goblygiadau Papur Gwyn Llywodraeth Leol o ran hynny. Byddai gofyniad i ddatblygu mecanweithiau darparu rhanbarthol a threfnu strwythurau gwleidyddol a swyddogion y cyngor o amgylch y strwythurau rhanbarthol a fyddai'n cymell newid sylweddol i ddarparu arferion gwaith gyda llai o adnoddau.

Cynigodd yr Arweinydd yr argymhellion ac fe gytunwyd y dylid cynnwys cyfeiriad at gynghorau 'Gogledd Cymru' er eglurder.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) Cefnogi'r model llywodraethu rhanbarthol a ffefrir ar gyfer cyd-pwyllgor statudol i'w ddatblygu ymhellach;*

*(b) Rhoi cyfarwyddyd i swyddogion weithio gyda chydweithwyr yn y cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru i ddatblygu cyfansoddiad manwl a chytundeb rhwng-–awdurdodau ar gyfer y Cyd-Bwyllgor arfaethedig ac i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w ystyried, i ffurfio model Cyd-bwyllgor statudol gyda'r pum cyngor Partner, yn ystod tri mis cyntaf o dymor y Cyngor newydd, a*

*(c) Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Ar y pwynt hwn (12.15pm) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 8 AMCANION LLES CYNGOR SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans adroddiad yn cynnig chwech o amcanion lles i'w mabwysiadu gan y Cyngor ac yn nodi'r broses ar gyfer eu hymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol nesaf.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r ymagwedd a gymerwyd i alinio ac uno prosesau er mwyn diwallu gofynion deddfwriaethol a nodi amcanion y Cyngor. Roedd chwe maes blaenoriaeth posibl wedi dod i'r amlwg o'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd ac roedd gwasgariad demograffig yr ymatebwyr ar draws yr holl feysydd a'r grwpiau oedran yn sicrhau adlewyrchiad gwirioneddol a chytbwys o safbwyntiau'r preswylwyr a oedd yn cael eu profi ymhellach yn yr ail gam ymgynghori. Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd y Cyngor newydd i adolygu'r blaenoriaethau hyn a'u halinio gyda'r Cynllun Corfforaethol ac i gyfrannu at Gynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Tynnodd sylw at bwysigrwydd ymgynghoriad lleol i osod blaenoriaethau, yn enwedig o ystyried y goblygiadau ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n deillio o Bapur Gwyn Llywodraeth Leol.

Eglurodd Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol bod gofyniad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gyhoeddi cyfres o Amcanion Lles erbyn 31 Mawrth 2017. Rhagwelwyd y byddai'r Cyngor newydd yn adolygu'r amcanion hynny ym mis Gorffennaf ac y byddai'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2017. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gosod eu blaenoriaethau eu hunain a gobeithir y byddai rhywfaint o aliniad rhwng amcanion y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ymatebodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol i'r materion a godwyd gan yr aelodau fel a ganlyn-

- eglurodd bod deddfwriaeth yn cyfeirio at Amcanion Lles ond yng nghyd-destun Sir Ddinbych roeddent yn cael eu galw'n flaenoriaethau - cytunwyd y dylid gwneud y gwahaniaeth yn gliriach mewn dogfennau yn y dyfodol.
- cadarnhaodd nad oedd manylion ar gael ar hyn o bryd ond bod y gyfres o flaenoriaethau arfaethedig yn amlygu technoleg wyrdd i gefnogi lleihau carbon - pe bai'r amcanion/blaenoriaethau yn cael eu cymeradwyo yna byddai'r cynlluniau yn cael eu datblygu gyda'r nod o ddiwallu'r amcan hwnnw
- o ran sicrhau Sir Ddinbych iachach cydnabuwyd pwysigrwydd bod unigolion yn cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac roedd atal ac ymyrraeth gynnar yn egwyddorion allweddol wrth ddatblygu cynlluniau a chyfrifoldebau personol.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr amcanion Lles sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad a nodai'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2016/17. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.241miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol

- cyflawnwyd 68% o arbedion hyd yma (targed o £5.2miliwn) ac roedd 2% arall yn gwneud cynnydd da; byddai 25% yn cael ei ohirio a’i gyflawni yn 2017/18 a 5% yn unig o arbedion fyddai heb eu cyflawni o fewn yr amserlen
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a’r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol)

Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet gymeradwyo trosglwyddo £0.150m o danwariant Cyfleusterau, Asedau a Thai i Gronfa Wrth Gefn Datblygu Glan y Môr y Rhyl ac i nodi defnydd arfaethedig tanwariant gwasanaethau lle y nodwyd hynny.

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams y pwysau cyllidebol ar ysgolion, er y diogelir cyllideb o 1.85%, gyda 24 ysgol yn amcangyfrif diffyg ar hyn o bryd.
- Roedd y Cabinet wedi gwneud penderfyniad eisoes i sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu lefel balansau ysgolion a deall y ffactorau sy'n cyfrannu at y lefelau hynny. Cytunodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd i ddarparu diweddariad ar gynnydd cyn cyfarfod nesaf y Cabinet, dylai cyfeiriad at 'Wasanaethau Cymunedol' nodi 'Gwasanaethau Cymorth Cymunedol'.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at y posibilrwydd o arbedion pellach o £700mil i gyfrannu at y gorwariant o £2.3m yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.
- Soniodd y Cynghorydd David Smith am y diffyg cynnydd o ran dosbarthu'r cyllid cyfyngedig oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i gwrdd â chostau’r Cyngor wrth adfer gwasanaethau cludiant ar ôl i GHA Coaches fynd drwyddi. Ni phenderfynwyd hyd yma ar swm y cyllid ar gyfer Sir Ddinbych, ond er y cafwyd sicrwydd cychwynnol ni fyddai’n ddigon i gwrdd â’r holl gostau ychwanegol. Un taliad fyddai'r Cyngor yn ei dderbyn, heb unrhyw ddarpariaeth barhaus. Roedd y Cynghorydd Smith o'r farn bod y sefyllfa yn annerbyniol.
- yn dilyn llwyddiant buddsoddiad yn y gwasanaethau hamdden, gofynnodd y Cynghorydd Hugh Irving am fanylion refeniw i weld sut yr oedd y gwasanaethau hynny yn perfformio. Cytunwyd y dylid darparu'r wybodaeth honno yn yr Adroddiad Ariannol rheolaidd nesaf ac fe gynghorwyd y Cabinet bod mwyafrif y buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau hamdden wedi bod yn bosibl oherwydd benthyca darbodus sy'n hunan-ariannu a oedd yn niwtral o ran costau i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd
- roedd talu i adael contract y Cynllun Ariannu Preifat wedi arwain at arbedion sylweddol i'r awdurdod ac roedd y costau cynnal a chadw wedi'u lleihau hefyd. Byddai pryderon ynglŷn â saernïaeth to Neuadd y Dref Rhuthun a difrod stormydd diweddar yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau eiddo i'w harchwilio.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

(b) *cymeradwyo trosglwyddo £0.150m o danwariant Cyfleusterau, Asedau a Thai i Gronfa wrth gefn Datblygu Glan y Môr y Rhyl a fydd yn cael ei gadw'n ganolog a'i ddefnyddio i gynorthwyo â llif arian i nifer o brosiectau, y mae rhai ohonynt eisoes wedi'u cymeradwyo mewn egwyddor, a*

(c) *Nodi'r defnydd arfaethedig o danwariant gwasanaethau lle y nodir hynny ac y ceisir cymeradwyaeth ffurfiol pan fo'r ffigurau gwirioneddol yn hysbys fel rhan o'r Adroddiad Alldro Terfynol.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w ystyried a nododd yr aelodau eitem ychwanegol Dileu Ardrethi Annomestig (Trethi Busnes) ar gyfer mis Mawrth.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 11 DATBLYGIAD GLAN Y MÔR Y RHYL: CAM 1B ELFENNAU MASNACHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans adroddiad cyfrinachol ynglŷn a'r model cyllid arfaethedig ar gyfer Cam 1b Datblygu Glan y Môr y Rhyl.

Cynghorwyd y Cabinet ynglŷn â'r trafodaethau dwys a pharhaus ynglŷn â'r datblygiad a'r rhesymau dros y newidiadau i'r cynigion gwreiddiol yn dilyn colli hyder mewn buddsoddi mewn eiddo yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE. Nid oedd yn ymagwedd heb risgiau ac roedd y risgiau wedi'u nodi'n glir yn yr adroddiad ynghyd â'r mesurau i liniaru'r risgiau hynny. Fodd bynnag, credir mai'r cynnig yw'r unig opsiwn hyfyw sydd ar gael i'r cyngor i symud ymlaen â'r cam hwn o'r datblygiad. Holodd y Cabinet gwestiynau ynglŷn â chyfreithlondeb y cynnig a'r risgiau ariannol er mwyn bodloni eu hunain bod y cynnig yn cynrychioli'r ffordd orau ymlaen yn yr achos hwn o ystyried maint y risg i'r awdurdod a'r mesurau a awgrymir i liniaru'r risgiau hynny. Wrth ystyried yr argymhellion cytunwyd y dylid tynnu'r cyfeiriad at ffigur elw rhent.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig mewn egwyddor, yn amodol ar drafodaeth derfynol a chytundeb cyfreithiol, i lunio cytundebau prydlesu i gefnogi datblygu gwesty 73 ystafell wely, tafarn a bwyty fel rhan o gynllun adfywio Glan y Môr y Rhyl. Yn benodol i gymeradwyo, mewn egwyddor-*

- *bod y cyngor yn llunio cytundebau prydlesu dilynol am 25 mlynedd i gefnogi datblygiad gwesty 73 ystafell wely, tafarn deuluol a bwyty ar lan y môr y Rhyl, yn amodol ar gytundeb terfynol a derbyn elw rhent wedi hynny sy'n cynyddu gyda chwyddiant RPI bob pum mlynedd.*

- *dirprwyo awdurdod i gwblhau'r trafodaethau terfynol i'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, gyda'r cytundeb terfynol yn cael ei gymeradwyo gan Arweinydd y Cyngor (fel deilydd portffolio), gan dybio nad yw'r cytundeb terfynol yn sylweddol waeth na'r telerau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.*

- *cytuno i drosglwyddo safle rhydd-ddaliad am ddim cost a bod y datblygwr yn gosod gwerth amcangyfrifiedig y derbyniad cyfalaf sy'n deillio o werthiant y dafarn/gwesty yn erbyn cost datblygu'r safle cyfan a'r gwesty.*

- *cytuno i sefydlu cronfa wrth gefn er mwyn rhoi'r elw rhent cychwynnol ynddi.*
- *Bydd hyn yn cronni cyllid y gellir ei ddefnyddio i liniaru risg ariannol y Cyngor yn y dyfodol. Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei hadolygu'n gyfnodol gan Swyddog A.151 a fydd yn llunio argymhellion ar gyfer ei defnydd yn y dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15pm.